


# Arweiniad ar reoli clefyd Johne mewn buchesi godro

Department of Agriculture and Rural Development
www.dardni.gov.uk
SCOTTISH EXECUTIVE
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
defra
Adran yr Amgylchedd Bwyd a Materion Gwledig

## Cynnwys


**Rheoli Clefyd Johne mewn Buchesi Godro** **3**

Strategaeth ar gyfer rheoli *Map* mewn llaeth buchod 3
Clefyd Johne – beth y dylech ei wybod 4
Sut y caiff *Map* ei ledaenu? 4
Sut y gallwch ganfod clefyd Johne 4
Clefyd Johne – problem hirdymor 5

**Crynodeb o Bwyntiau Allweddol** **5**

Pam rheoli clefyd Johne? 5
3 Rheswm Da dros reoli clefyd Johne 6
Sgrinio eich buches ar gyfer clefyd Johne 6

**Cynlluniau Iechyd a Lles Buchesi** **7**

**Strategaethau ar gyfer Rheoli Clefyd Johne?** **7**

Prynu stoc newydd 7
Dŵr Glân 7
Rheoli tir pori 8
Diogelu lloi a gwartheg ifanc rhag clefyd Johne 8

**Os Oes Gan Eich Buches Odro Glefyd Johne** **8**

Lloi newydd-anedig 8
Rheoli Buchesi 9
Brechu rhag clefyd Johne 10
Beth i'w wneud am glefyd Johne: 10 cam i'w hystyried 11

## Rheoli clefyd Johne mewn buchesi godro

Mae clefyd Johne neu baratwbercwlosis yn gyffredin ym mhrif ardaloedd ffermio gwartheg godro y byd. Mae'n glefyd anodd ei reoli. Gall y clefyd gael effaith ariannol sylweddol ar fuchesi drwy golli cynnyrch a difa anifeiliaid yn gynnar, a gall beryglu lles anifeiliaid yr effeithiwyd arnynt.

Byddai'n ddoeth i bob fferm gwartheg godro baratoi a gweithredu cynllun iechyd a lles buches â'i milfeddyg sy'n cynnwys polisi ar reoli ac atal haint gan glefyd Johne. Mae'r arweiniad hwn yn rhoi gwybodaeth hanfodol am glefyd Johne ac yn awgrymu strategaethau ar gyfer ei reoli mewn buchesi godro. Mae rheoli'r clefyd hwn yn broses gymhleth a chynghorwn chi'n gryf i drafod y sefyllfa gyda'ch milfeddyg cyn cymryd unrhyw gamau.

### Strategaeth ar gyfer Rheoli *Map* mewn Llaeth Buchod

Caiff clefyd Johne ei achosi gan facteriwm o'r enw *Mycobacterium avium* isrywogaeth *paratuberculosis*, neu *Map*. Awgrymwyd y gallai'r organeb hon achosi clefyd Crohn mewn pobl o bosibl. Nid yw cysylltiad achosi o'r fath rhwng y ddau gyflwr wedi ei brofi na'i wrthbrofi hyd yn hyn, fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cymryd ymagwedd ragofalus yn y maes hwn.

Un ffordd bosibl y gallai pobl gael eu heintio yw trwy yfed llaeth sy'n cynnwys *Map*.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cyhoeddi strategaeth ar gyfer gostwng lefelau *Map* mewn llaeth. Mae'r strategaeth yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Arferion godro hylan
- Prosesau pasteureiddio llaeth effeithiol
- Gostwng lefel y *Map* mewn buchesi godro

Nod y canllaw hwn yw lleihau'r achosion o glefyd Johne mewn buchesi godro yn y DU, a thrwy hynny gostwng lefelau *Map* mewn llaeth. I gael rhagor o wybodaeth ymwelwch â www.food.gov.uk/science/sciencetopics/microbiology/mapinmilk ac i gael rhagor o wybodaeth am hylendid llaeth cyfeiriwch at http://www.defra.gov.uk/corporate/rds/shortguide.pdf. Mae'r arweiniad yn seiliedig ar astudiaeth fanwl a gynhaliwyd gan Goleg Amaethyddol yr Alban i Defra.[1]

[1] Scottish Agricultural College: Assessment of Surveillance and Control of Johne's disease in farm animals in Great Britain. Cyhoeddwyd yn 2002 – www.defra.gov.uk/animalh/diseases/zoonoses/zoonoses_reports/sac2.PDF

## Clefyd Johne – Beth y dylech ei wybod

Clefyd nychu heintus mewn gwartheg ac anifeiliaid eraill sy'n cnoi cil yw clefyd Johne a achosir gan *Mycobacterium avium* isrywogaeth *paratuberculosis* (y cyfeirir ato'n gyffredin fel *Map*). Mae'n gysylltiedig yn agos â'r organeb sy'n achosi twbercwlosis. Mae'r clefyd yn niweidio perfeddion anifeiliaid sydd â'r clefyd yn gynyddol, a chyda gwartheg mae hyn yn arwain at ddolur rhydd helaeth a pharhaus, colli llawer o bwysau, colli cyflwr ac anffrwythlondeb. Mae'n anochel y bydd anifeiliaid yr effeithiwyd arnynt yn marw yn y pen draw. Mewn buchesi godro, bydd clefyd Johne yn peri i gynnyrch llaeth ostwng yn sylweddol cyn y gellir canfod unrhyw arwydd arall o'r clefyd. Nid yw clefyd Johne yn glefyd hysbysadwy ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban), ond mae'n hysbysadwy yng Ngogledd Iwerddon.

## Sut y caiff *Map* ei ledaenu?

Yn gyffredinol bydd anifeiliaid â'r clefyd yn ysgarthu niferoedd mawr *o Map* yn eu tail. Felly, gall un anifail sydd â'r clefyd beri risg fawr i anifeiliaid sy'n debygol o ddal y clefyd, yn arbennig lloi ifanc yn y fuches. Gall anifeiliaid sydd â'r clefyd hefyd waredu *Map* drwy eu llaeth a'u llaeth tor. Er bod gwartheg yn parhau'n debygol o gael y clefyd drwy gydol eu bywydau, maent fwyaf tebygol o gael eu heintio yn ystod misoedd cyntaf eu bywydau. Gall lloi gael eu heintio yn y groth ond cânt eu heintio yn fwy cyffredin drwy:

- yfed llaeth tor heintiedig;
- llyncu tail a allai fod yn bresennol ar dethi brwnt;
- porthiant wedi'i heintio;
- amgylchedd neu gyflenwadau dŵr wedi'u halogi.

Mae'r organeb yn eithriadol o wydn a gall oroesi hyd at flwyddyn ar dir pori, mewn biswail ac mewn dŵr. Gall anifeiliaid eraill, yn enwedig ceirw, defaid, geifr a chamelidau o Dde America fel y llama a'r alpaca gario *Map* a'i drosglwyddo yn eu tail. Felly, gallant hwy fod yn ffynonellau haint lle y bydd anifeiliaid yn cyd-bori neu'n pori'n ddilyniannol ar yr un tir. Gall cwningod a bywyd gwyllt eraill gael eu heintio â *Map*. Er na chadarnhawyd a ydynt yn lledaenu clefyd mewn da byw, credir bod cwningod yn llai arwyddocaol fel ffynhonnell y clefyd na gwartheg wedi'u heintio ar hyn o bryd.

## Sut y gallwch ganfod clefyd Johne?

Mae *Map* yn organeb sy'n tyfu'n araf. Ar ôl iddo gael ei heintio, gall gymryd blynyddoedd i'r anifail fynd yn sâl. Yn ystod cyfnod cynnar yr haint, yr unig ffordd o gadarnhau p'un a oes gan anifail glefyd Johne yw cynnal profion gwaed. Nid yw'r rhain yn canfod yr haint ymhob anifail sydd wedi'i heintio, ond yn ystod y cyfnod hwn maent yn fwy tebygol o nodi clefyd na phrofion ar gyfer yr organeb ei hun. Prin iawn y sylwir ar arwyddion o'r clefyd cyn bod yr anifail yn ddwy neu'n dair blwydd oed. Yn gyffredinol, ceir cyfnod lle bydd yr anifail yn cynhyrchu llai o laeth neu'n llai ffrwythlon ymhell cyn y bydd yn dechrau cael dolur rhydd helaeth. Dolur rhydd helaeth a pharhaus a cholli llawer o bwysau yw arwyddion o'r clefyd ar gam datblygedig. Mae'r arwyddion hyn yn llawer mwy cyffredin mewn anifeiliaid sy'n dair i bum mlwydd oed. Ar ôl i'r clefyd ddatblygu gellir fel arfer gadarnhau'r diagnosis o sampl o dail drwy ficrosgop.

## Clefyd Johne – problem hirdymor

Pan gaiff anifail â chlefyd Johne ei ddarganfod ymhlith buches odro, bydd llawer o anifeiliaid eraill yn y fuches wedi cael eu hamlygu i'r haint. Mae'n debygol iawn y bydd sawl anifail arall yn datblygu'r clefyd. Am bob anifail â chlefyd a ganfyddir mewn buches, mae'n debygol y ceir grŵp lle y mae'r clefyd eisoes yn effeithio ar eu cynnyrch llaeth neu eu ffrwythlondeb **a** grŵp lle y mae'r clefyd yn datblygu ac efallai y gwelir yr effeithiau mewn blynyddoedd diweddarach. Gan fod *Map* yn aros yn yr amgylchedd am gyfnodau hir a bod cyfnod "tawel" hir rhwng yr haint a'r arwyddion cyntaf o'r clefyd yn dod yn amlwg, mae'n cymryd amser hir i ostwng lefel yr heintiad yn sylweddol mewn buchesi godro.

### Crynodeb o bwyntiau allweddol

- **Mae *Map* yn facteriwm hirhoedlog ac mae'n anodd iawn ei ddileu. Gellir dod o hyd iddo mewn biswail a dyfrffosydd, a gall dŵr llonydd fel pyllau fod wedi'u halogi gryn dipyn.**
- **Gall gwartheg (rhai godro ac eidion) â chlefyd Johne gynhyrchu niferoedd mawr iawn o *Map* sy'n halogi tir pori, porthiant a gwellt. Mae hyn yn peri risg sylweddol i weddill y fuches.**
- **Gall anifeiliaid eraill fel ceirw, defaid a geifr gario *Map* hefyd.**
- **Mae gwartheg sydd â'r clefyd yn cynhyrchu *Map* mewn llaeth tor a llaeth.**
- **Gall lloi gael eu heintio yn y groth neu, yn fwy cyffredin, drwy yfed llaeth tor mamogiaid wedi'u heintio, o dethi wedi'u heintio neu'r amgylchedd.**
- **Wedi iddynt gael eu heintio gan *Map*, mae'n cymryd amser hir i glefyd Johne ymddangos mewn gwartheg, o leiaf ddwy flynedd fel arfer.**
- **Wedi darganfod y clefyd, bydd yn cymryd sawl blwyddyn i ostwng lefel yr heintiad mewn buchesi godro.**

## Pam rheoli clefyd Johne?

Os na chaiff ei reoli, bydd clefyd Johne yn effeithio'n ariannol ar eich busnes llaeth. Mae effeithiau penodol yn cynnwys:

1. Efallai y bydd yn amharu ar gynhyrchiad llaeth cyn y bydd unrhyw arwyddion clinigol eraill yn amlwg, ond efallai na chysylltir y golled hon â chlefyd Johne. Yn ystod y cyfnod llaetha lle y bydd arwyddion o'r clefyd yn dod yn amlwg gall buchod gynhyrchu 25% yn llai o laeth na'u cynnyrch posibl. Yn y cyfnod llaetha cyn hyn bydd y gostyngiad yn 10%. Erbyn pryd y bydd arwyddion o ddolur rhydd a cholli llawer o bwysau yn amlwg, bydd wedi effeithio'n sylweddol ar y cynnyrch llaeth. Gall hyn arwain at ostyngiad sylweddol yn eich cynnyrch llaeth a thrwy hynny eich incwm o'r fuches.

2. Mae gwartheg wedi'u heintio yn fwy tebygol o gael clefydau eraill fel mastitis ac oherwydd ei bod yn anodd iddynt gynnal cyflwr eu corff maent yn mynd yn llai ffrwythlon. Mae trin y cyflyrau hyn yn ddrud, a bydd yn rhaid i chi ystyried y gost o brynu stoc newydd yn lle'r stoc a gafodd ei ddifa.

3. Gall gwerth cyfalaf eich stoc bridio ostwng hefyd os oes galw am stoc neu laeth o fuchesi y gellir ardystio eu bod yn rhydd o glefyd Johne.

## 3 Rheswm Da dros reoli clefyd Johne

Mae rheoli ac atal clefyd Johne yn gwneud synnwyr da yn yr hirdymor am dri rheswm:

1. Lleihau neu atal eich colledion o ran cynnyrch ac incwm o ganlyniad i'r clefyd hwn;
2. Cynyddu gwerth eich stoc bridio os yw eich buches wedi'i hardystio ei bod yn rhydd o'r clefyd;
3. Gostwng lefel *Map* mewn llaeth ac yn yr amgylchedd.

## Sgrinio eich buches ar gyfer clefyd Johne

Oherwydd ei bod yn cymryd amser hir i arwyddion o glefyd Johne ymddangos mewn gwartheg wedi'u heintio, efallai na fyddwch yn gwybod ei fod yn bresennol yn eich buches odro. Mae'n bwysig iawn edrych am arwyddion o'r clefyd ac fe'ch cynghorir i gymryd camau i sgrinio'r fuches i weld a yw *Map* yn bresennol. Bydd hyn yn eich helpu chi a'ch milfeddyg i benderfynu beth yw'r camau gweithredu gorau, yn enwedig wrth baratoi cynllun iechyd a lles buches.

Unwaith y bydd gan anifail ddolur rhydd difrifol ac mae'n colli pwysau, fel arfer gellir cadarnhau'r clefyd yn rhwydd gyda phrawf gwaed neu drwy archwilio'r tail gyda microsgop. Gellir meithrin a nodi'r organeb *Map* o'r tail, ond mae'n cymryd hyd at chwe mis i gael canlyniad y meithriniad – sy'n rhy hir i fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwneud diagnosis rheolaidd o'r clefyd. Fodd bynnag, mae'n anodd canfod yr organeb mewn anifeiliaid yn ystod cyfnod "tawel" yr haint, cyn y daw arwyddion yn amlwg. Anaml iawn y mae gwartheg wedi'u heintio yn ysgarthu digon o *Map* yn eu tail fel y gellir ei ganfod nes eu bod yn hŷn na dwy flwydd oed.

Mae yna brawf gwaed ar gael sy'n canfod y gwrthgorff i *Map* a gynhyrchir gan wartheg wedi'u heintio. Fodd bynnag, mae gwartheg yn tueddu i gynhyrchu'r gwrthgorff i *Map* yn gymharol ddiweddar ar ôl cael eu heintio. Mewn rhai achosion gall fod yn anodd cadarnhau'r haint yn yr anifail byw. Lle y caiff anifail wedi'i heintio ei brofi drwy gydol ei fywyd gellir disgwyl y bydd y profion yn negyddol ar un achlysur neu fwy cyn y bydd yn gadarnhaol. Golyga hyn hefyd na all profi anifeiliaid sy'n ymddangos yn iach cyn eu prynu neu ar ôl iddynt gael eu rhoi gyda'r fuches newydd sicrhau na fydd anifeiliaid wedi'u heintio yn cael eu cyflwyno.

Gan ystyried yr anawsterau hyn, dylech ymgynghori â'ch milfeddyg i ddatblygu rhaglen sgrinio a fydd yn diwallu anghenion eich busnes orau. Er enghraifft:

- Os credwch nad yw eich buches wedi'i heintio a hoffech roi sicrwydd da er mwyn cael ardystiad i hybu gwerthiannau, efallai y bydd rhaglen brofi reolaidd yn briodol. Gall hyn fod ar ffurf prawf gwaed bob un neu ddwy flynedd ar bob un neu ar rai o'r fuches lawndwf, ynghyd â phrofion ar unrhyw anifeiliaid yr "amheuir" bod y clefyd arnynt neu anifeiliaid eraill a gafodd eu difa;
- Os credwch nad yw eich buches wedi'i heintio ond eich bod am sicrhau y caiff ei ganfod yn gynnar os bydd yn digwydd, efallai y bydd cynnal profion ar anifeiliaid yr amheuir bod y clefyd arnynt, ar wartheg wedi'u difa, neu sgrinio cyfran o'r anifeiliaiid hŷn yn y fuches yn gyfnodol yn ddigon.

- Os ydych yn gwybod bod clefyd Johne yn bresennol yn eich buches a hoffech geisio'i ddileu, bydd angen rhaglen fwy trylwyr ar y cyd â mesurau rheoli eraill.

Darperir rhaglenni profi addas gan gynlluniau sy'n gweithredu o dan arweiniad Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg (CHeCS). I gael rhagor o wybodaeth gweler **www.herdcare.com/HealthScheme.htm** a **www.cattlehealth.co.uk**

## Cynlluniau iechyd a lles buchesi

1. Mae'n arfer da gweithredu rhaglen a gynlluniwyd i leihau'r tebygrwydd y caiff haint ei gyflwyno i'r fuches a'i ledaenu ymhlith y fuches. Mae hyn yn wir p'un a ydych yn gwybod bod gennych yr haint, neu os credwch y gallwch fod yn rhydd ohono.

2. Mae'n bwysig iawn datblygu cynllun iechyd a lles buches ar y cyd â'ch milfeddyg.

3. Mae angen i chi ystyried sut i reoli clefyd Johne ar eich fferm, yn ogystal â'r angen i reoli heintiau eraill ymhlith gwartheg. Gall mesurau gwella neu gynnal bioddiogelwch caeth helpu i reoli llawer o glefydau, yn ogystal â chlefyd Johne.

## Strategaethau ar gyfer rheoli clefyd johne

P'un a ydych wedi canfod clefyd Johne yn eich buches odro ai peidio, dylech weithredu nifer o fesurau bioddiogelwch sylfaenol, gan eu hymgorffori yn eich cynllun iechyd a lles buches. Byddant yn helpu i atal y clefyd rhag cael ei gyflwyno i'ch buches, ac, os yw eisoes yn bresennol, byddant yn helpu i'w atal rhag lledaenu ymhlith gwartheg eraill nad effeithiwyd arnynt.

## Prynu stoc newydd

Y ffactor mwyaf sydd wrth wraidd yr haint yw prynu gwartheg godro neu wartheg eidion neu anifeiliaid eraill wedi'u heintio (gan gynnwys defaid a rhywogaethau eraill) nad ydynt eto'n dangos arwyddion o'r clefyd. Er mwyn cadw'r clefyd oddi wrth eich buches neu er mwyn ei hatal rhag cael ei hail-heintio byddai'n well cadw buches reoledig. Os bydd yn rhaid i chi brynu stoc newydd (gan gynnwys teirw magu), ceisiwch eu prynu o fuchesi a gaiff eu profi'n rheolaidd a lle na chafwyd tystiolaeth o haint. Po hwyaf y bydd buches o'r fath wedi cael profion negyddol, lleiaf oll fydd y risg o brynu anifail wedi'i heintio. Mae ffermydd sydd wedi'u hachredu â buchesi iach yn ffynhonnell bosibl o stoc newydd sy'n rhydd o haint. Os na allwch ddod o hyd i fuches sydd wedi cael ei phrofi'n llawn fel ffynhonnell ar gyfer stoc newydd, neu deirw wedi'u llogi, dylech o leiaf sicrhau na wnaed diagnosis o glefyd Johne yn y fuches, a gofyn pa brofion a gynhaliwyd.

Cofiwch mai trosglwyddo embryonau o bosibl yw'r ffordd fwyaf diogel o gyflwyno hil newydd i'ch buches, ar yr amod eich bod yn gwybod bod yr anifeiliaid dan sylw yn rhydd o'r clefyd.

## Dŵr Glân

Gall dyfrffosydd wedi'u heintio ledaenu clefyd Johne. Dylech wneud y canlynol:

- Lle bynnag y bo'n bosibl, darparu dŵr tap i'w yfed.
- Os oes gennych ffynhonnell ddŵr breifat sicrhau y caiff ei harchwilio'n rheolaidd.
- Sicrhau y cedwir cafnau yfed mor lân â phosibl.

- Lle y gallwch ddarparu dŵr tap neu ddŵr glân o ffynhonnell breifat, rhoi ffens o amgylch eich buches i'w hatal rhag cael mynd at byllau, nentydd ac afonydd, yn enwedig dyfrffosydd araf neu ddŵr llonydd y gall y gwartheg fynd i mewn iddo.
- Os yw eich gwartheg yn pori mewn dolydd sy'n debygol o gael eu boddi neu mewn achosion lle cafodd pwll biswail ei foddi, dylech geisio atal eich gwartheg rhag pori cyhyd ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r llifddwr gilio.

## Rheoli tir pori

Gall *Map* fod yn bresennol mewn tail neu fiswail. Oherwydd ei fod yn organeb wydn y mae'n anodd ei ddileu, gellir dod o hyd iddo ar dir pori am o leiaf blwyddyn ar ôl gosod biswail neu wrtaith neu ar ôl iddo gael ei heintio gan wartheg sy'n pori. Hyd yn oed os yw gwrtaith wedi cael ei gompostio am amser hir, gall *Map* fod yn bresennol o hyd. Dylech osgoi rhoi anifeiliaid ifanc i bori ar y tir am o leiaf tri mis ac yn ddelfrydol flwyddyn ar ôl canfod *Map* er mwyn lleihau'r tebygrwydd y cânt eu heintio, lle y bo'n ymarferol.

Mae ceirw, defaid, geifr a chamelidau o Dde America (gan gynnwys y llama a'r alpaca) hefyd yn debygol o gael y clefyd. Ar ffermydd lle y mae'r clefyd yn bresennol mewn gwartheg gall ledaenu i'r anifeiliaid hyn a fydd wedyn yn gronfa heintus. Felly, gellir ailgyflwyno'r haint i fuchesi drwy'r rhywogaethau hyn. Felly, dylech osgoi gadael i anifeiliaid gyd-bori. Dylid osgoi gadael i anifeiliaid bori'n ddilyniannol gydag anifeiliaid o'r fath yn ystod yr un tymor pori.

## Diogelu lloi a gwartheg ifanc rhag clefyd Johne

Ffynhonnell heintio bwysig mewn lloi yw heintiad ysgarthol y llaeth, tethi a thail arnynt, neu ysgarthion ar gôt y llo, y bydd y llo yn eu llyncu wrth olchi ei hun. Felly, mae'n bwysig defnyddio arferion hylan da i leihau'r posibilrwydd y caiff anifeiliaid ifanc eu hamlygu i dail neu fiswail o anifeiliaid llawndwf cymaint â phosibl. Bydd hyn yn dechrau o'r adeg y caiff y llo ei eni. Er mwyn cyflawni hyn byddai' n ddymunol iawn:

1. Sicrhau bod buchod yn bwrw lloi mewn ardaloedd glân â llawer o wellt. Y delfryd yw blychau bwrw lloi a gaiff eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr ar ôl pob buwch. Mae'n rhaid i dethi'r famog fod mor lân â phosibl i atal lloi rhag llyncu ysgarthion.

2. Sicrhau y caiff y llo ei fagu mewn amgylchedd glân ar ôl hynny, yn rhydd o ysgarthion anifeiliaid llawndwf.

3. Peidiwch â gadael i stoc ifanc bori ar dir lle y mae stoc llawndwf wedi bod yn pori neu lle y mae biswail wedi cael ei osod yn y tri mis diwethaf ac yn ddelfrydol yn y flwyddyn ddiwethaf.

## Os oes gan eich buches odro glefyd Johne

### Lloi newydd-anedig

Os canfuwyd clefyd Johne ymhlith eich buches, rhaid i chi fod yn ymwybodol y gall *Map* fod yn bresennol mewn llaeth buchod wedi'u heintio ac fe'i eir yn aml yn eu llaeth tor. Pan gaiff lloi eu geni mewn buches o'r fath byddant yn debygol iawn o gael haint, ac mae angen mesurau penodol i leihau'r tebygrwydd o gael yr haint.

Pan gaiff lloi eu geni mae'n bwysig dilyn y cyngor yn y Cod Argymhellion ar gyfer Lles Da Byw: Gwartheg[2]. Fodd bynnag, er mwyn lleihau'r tebygrwydd o heintiad efallai y bydd angen i chi ystyried gwahanu'r llo oddi wrth ei famog yn gynharach na'r 12-24 awr a argymhellir ar ôl genedigaeth. Dylech geisio cyngor eich milfeddyg cyn i'r fuwch fwrw llo er mwyn penderfynu pryd y dylid symud y llo, a dylid cofnodi hyn yn eich cynllun iechyd a lles buches. **Os bydd yn rhaid i chi wahanu lloi oddi wrth eu mamogiaid yn gynnar, mae'n hanfodol y cânt eu magu wedyn mewn amgylchedd glân, ac sydd wedi ei ddiheintio'n drylwyr, ac sy'n rhydd o ysgarthion anifeiliaid llawndwf.**

**Mae hefyd yn hanfodol bod lloi newydd-anedig yn cael digon o laeth tor, felly bydd yn <u>rhaid</u> i chi sicrhau:**

- Bod lloi **<u>dim ond</u>** yn cael llaeth tor gan eu mam eu hunain, neu yn absenoldeb llaeth tor eu mamog eu hunain, llaeth gan **un anifail yn unig** sydd wedi cael ei brofi'n negyddol am *Map* dro ar ôl tro.
- Ar ôl cael llaeth tor y cânt eu magu ar laeth amgen neu laeth a gafodd ei gynhesu i bwynt berwi.
- Lle y caniateir i loi aros gyda'u mamogiaid, bydd yn rhaid i dethi fod mor lân â phosibl, i'w hatal rhag llyncu ysgarthion, a bydd yn rhaid cadw'r gorlan yn lân.

**PEIDIWCH â rhoi llaeth a gafodd ei wrthod i loi. Os byddwch yn rhoi llaeth a gafodd ei wrthod i loi dylai gael ei gynhesu i bwynt berwi.**

**PEIDIWCH â chronni llaeth tor a'i roi i loi. Dylech osgoi cronni llaeth tor o fuches lle gallai clefyd Johne fod yn bresennol os yn bosibl, hyd yn oed o fuchod a gafodd eu profi'n negyddol. Ni ellir gwarantu na fydd anifail sydd wedi ei brofi'n negyddol yn ysgarthu neu waredu *Map*, a bydd cronni llaeth tor yn cynyddu'r risg o heintio lloi. Fodd bynnag, os ydych yn ystyried cronni llaeth llo bach fel strategaeth, dylech geisio cyngor eich milfeddyg, gan ystyried anghenion penodol eich buches.**

**NODYN PWYSIG**

**Dylech nodi mai ofer fydd cymryd y camau penodol hyn i ddiogelu lloi rhag cael eu heintio os na fyddwch yn sicrhau y cânt eu magu mewn ardaloedd sy'n rhydd o ysgarthion anifeiliaid llawndwf a thrwy gymryd y camau pwysig eraill a nodir yn y daflen hon.**

## Rheoli Buchesi

Os cadarnheir bod clefyd Johne yn bresennol yn eich buches dylech, mewn ymgynghoriad â'ch milfeddyg, gymryd y camau canlynol:

1. Gwahanu anifeiliaid a gafodd prawf cadarnhaol oddi wrth y fuchesi cyn gynted â phosibl. Bydd symud yr anifeiliaid cyn eu bod yn dangos arwyddion clinigol o glefyd Johne yn lleihau'r graddau y caiff anifeiliaid eraill eu hamlygu i'r organeb gan mai dim ond nifer gymharol fach o'r organeb *Map* a gaiff ei ollwng gyda thail yn ystod cyfnodau cynnar yr heintiad.

[2] Bwriad y cod yw annog pawb sy'n gofalu am wartheg i fabwysiadu'r safonau uchaf posibl o hwsmonaeth. Yn ôl y gyfraith dylai fod gan bob hwsmon fynediad i'r cod a dylai'r darpariaethau fod yn gyfarwydd iddo. Dylai cyflogwyr sicrhau bod eu staff yn cael arweiniad ar y cod.

2. Oherwydd ei bod yn debygol iawn y bydd buchod sydd wedi'u heintio yn trosglwyddo'r heintiad i'w hepil, dylid gwahanu'r rhain o'r fuches hefyd. **Peidiwch â bridio o epil anifeiliaid sydd wedi'u heintio. Yn achos buchod gwerthfawr ond sydd wedi'u heintio un opsiwn yw casglu embryonau a'u trosglwyddo i anifeiliaid 'glân'.**

3. Sicrhau bod y mesurau bioddiogelwch cyffredinol a eglurir yn y canllaw hwn wedi'u gweithredu er mwyn cyfyngu ar y posibilrwydd o ledaenu haint ymhlith y fuches. Mae hefyd yn bwysig atal yr haint rhag cael ei gyflwyno ymhellach mewn stoc newydd: gweler tudalen 7.

Mae'r corff Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg (CheCS) wedi diffinio rhaglen sgrinio a rheoli safonol y diwydiant ar gyfer clefyd Johne sy'n nodi dull cytûn mewn rhaglen profi a difa buchesi.

## Brechu rhag clefyd Johne

Mae brechiad ar gael ym Mhrydain. Fodd bynnag mae ond yn addas mewn rhai sefyllfaoedd. Ymgynghorwch â'ch milfeddyg ar bob achos unigol cyn dechrau menter o'r fath oherwydd efallai y byddwch yn gwastraffu arian. Mae'n rhaid ei roi i loi yn ystod mis cyntaf eu bywydau a bydd ei ddefnydd yn lleihau nifer yr anifeiliaid ymhlith buches sy'n datblygu camau olaf y clefyd. Fodd bynnag nid yw'n cael gwared ar yr haint o'r fuches. Bydd anifeiliaid sydd wedi cael y brechlyn yn adweithio i elfen adaraidd y prawf twbercwlin, a fydd yn cymhlethu'r ffordd y caiff y prawf twbercwlosis ei ddehongli ymhlith y fuches. Hysbysir Rheolwyr Milfeddygol Rhanbarthol o fuchesi a gafodd eu brechu yn eu Rhanbarthau. Mae defnyddio'r brechlyn hefyd yn amharu ar brawf gwaed clefyd Johne, yn enwedig lle caiff anifeiliaid eu profi pan fyddant yn ddwy flwydd oed. Bydd rhaglen frechu fwyaf effeithiol lle caiff ei chyfuno â rhaglen rheoli fel y disgrifir yn y daflen hon. Dylech geisio cyngor eich milfeddyg wrth wneud penderfyniad, a dylech ddiweddaru eich cynllun iechyd a lles buches yn unol â hyn.

## Beth i'w wneud am glefyd Johne: 10 cam i'w hystyried

1. Paratowch gynllun iechyd a lles buches gyda'ch milfeddyg a chynnwys rmesurau i reoli clefyd Johne.

2. Gwahanwch wartheg sydd â'r clefyd oddi wrth y fuches mor gynnar â phosibl. Peidiwch â bridio o'u hepil.

3. Gyda'ch milfeddyg, trafodwch y posibilrwydd o sgrinio eich buches odro ar gyfer clefyd Johne i gadarnhau a yw'r haint yn debygol o fod yn bresennol neu i ganfod a yw'n bresennol cyn gynted â phosibl. Ystyriwch symud gwartheg wedi'u heintio cyn i'r clefyd ddatblygu.

4. Mae'r haint yn fwy tebygol o ddigwydd yn ystod misoedd cyntaf bywyd. Gweithredwch gamau hylan caeth ar y fferm, yn enwedig pan fydd buchod yn bwrw lloi. Lle bynnag y bo'n bosibl, magwch loi a gwartheg ifanc i ffwrdd o ysgarthion anifeiliaid llawndwf.

5. Sicrhewch lle bynnag y bo'n bosibl fod pob llo ond yn cael llaeth tor gan ei famog ei hun. Peidiwch â bwydo llaeth tor wedi'i gronni i fuchesi wedi'u heintio.

6. Fel rheol, peidiwch â bwydo llaeth sydd wedi'i wrthod i loi oni bai ei fod wedi'i gynhesu i bwynt berwi.

7. Cadwch fuches reoledig, ond os yw'n hanfodol prynu gwartheg eraill, ceisiwch brynu stoc o ffynonellau a all ddangos eu bod wedi eu profi a'u bod yn rhydd o glefyd Johne.

8. Oedwch cyn gadael i wartheg ifanc bori ar dir biswail cyhyd â phosibl ac am o leiaf blwyddyn os yw'n ymarferol.

9. Lle bynnag y bo'n bosibl, rhowch ddŵr tap iddynt a chadwch gafnau'n lân. Rhowch ffens o amgylch afonydd a ffynonellau dŵr eraill os yw'n bosibl, yn arbennig pyllau ac ardaloedd eraill lle ceir dŵr llonydd.

10. Ceisiwch osgoi achosion o gyd-bori neu bori dilyniannol ag anifeiliaid eraill a all gario haint clefyd Johne.

**DS.** Mesurau atal awgrymedig yw'r pwyntiau uchod. Dylech drafod camau i'w cymryd ar eich fferm chi gyda'ch milfeddyg.

I gael rhagor o wybodaeth ymwelwch â **www.defra.gov.uk** neu archebwch ragor o gopïau o'r Canllawiau oddi wrth gyhoeddiadau Defra 0845 955 6000 drwy ddyfynnu PB9990. Gallwch hefyd lwytho'r Canllawiau o wefan Defra i'w defnyddio gyda'ch milfeddyg.

Cynhyrchwyd ar bapur wedi ei ailgylchu yn cynnwys 80% o wastraff defnyddwyr a 20% o fwydion crai cwbl ddi-glorin.

**Animal Health and Welfare**
**1 Page St**
**London SQ1P 4PQ**
**PB 9990W, Medi 2004**

defra
Adran yr Amgylchedd Bwyd
a Materion Gwledig